# Gweithgarwch Dilynol

# Arolygiadau Ar y Cyd AGC / Estyn

# Ionawr 2025

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Arweiniad i leoliadau nad ydynt yn ysgolion sy'n darparu gofal ac yn gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser, ac arweiniad ar gyfer arolygwyr

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gyfer holl arolygiadau ar y cyd Estyn ac ACG a gynhelir o fis Ionawr 2025.

Mae'r arweiniad yn disgrifio'r camau y bydd timau arolygu yn eu cymryd i'w helpu i gytuno ar weithgarwch dilynol priodol.

Mae'r arweiniad hwn yn hyblyg gan fod angen iddo fod yn ymatebol i'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n digwydd mewn lleoliadau wrth iddynt wella ar ôl arolygiadau craidd ar y cyd. Mae Estyn ac AGC yn cadw'r hawl i addasu'r arweiniad i ddiwallu anghenion lleoliadau penodol.

## Arweiniad i arolygwyr ar roi lleoliad yn y categori gweithgarwch dilynol ar y cyd

Yn ystod pob arolygiad ar y cyd, bydd y tîm arolygu'n ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y lleoliad.

Mae **un** categori gweithgarwch dilynol, sef:

### Gweithgarwch dilynol ar y cyd

**Fel arfer**, mae angen ymweliad dilynol ar y cyd ar leoliad:

- os yw arolygwyr yn dod o hyd i wendidau pwysig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, sy'n achosi pryder sylweddol ac yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant, sydd fel arfer yn arwain at farn 'gwael' ar gyfer thema 6 AC
- os yw arolygwyr wedi dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Efallai bydd hyn yn arwain at hysbysiad gweithredu blaenoriaethol, neu efallai ddim.

Bydd gwaith dilynol ar y cyd yn cael ei wneud gan AGC ac Estyn. Fodd bynnag, gallai fod adegau pan gytunir mai arolygwyr naill ai o Estyn neu AGC sydd yn y sefyllfa orau i gynnal ymweliad dilynol ar eu pen eu hunain. Yn yr achosion hyn, bydd Estyn yn mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â darparu addysg, a bydd AGC yn dilyn ei Pholisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.

Os bydd naill ai Estyn neu AGC yn nodi unrhyw wendid sy'n peri pryder, yna bydd y lleoliad yn cael ei roi yn y categori gweithgarwch dilynol ar y cyd.

## Rhoi lleoliad yn y categori gweithgarwch dilynol ar y cyd

Wrth ystyried rhoi lleoliad yn y categori gweithgarwch dilynol ar y cyd, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

- a yw arolygydd AGC wedi dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio ac wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu blaenoriaethol i'r lleoliad?
- a yw'r lleoliad yn methu darparu safon dderbyniol o ofal ac addysg ar gyfer plant?
- a yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain neu reoli'r lleoliad yn methu dangos bod ganddynt y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn y lleoliad? **Yn yr achos hwn, mae'n debygol mai'r farn ar gyfer thema arolygu 6, arweinyddiaeth a rheolaeth, fydd 'gwael'.**
- dylai'r tîm arolygu ystyried y barnau ar gyfer pob thema cyn penderfynu ar weithgarwch dilynol. Er enghraifft, pan gyflwynir hysbysiad gweithredu blaenoriaethol, ond mae'r barnau ar gyfer themâu 1, 2 a 4 yn 'dda', efallai ei bod yn ddigonol i AGC gynnal ymweliad dilynol ar ei phen ei hun i ddelio â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy ddilyn y Polisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.
- pan fydd pryderon am y ddarpariaeth addysg ond mae'r barnau ar gyfer themâu 1, 3 a 5 yn 'dda', efallai ei bod yn ddigonol i Estyn yn unig gynnal ymweliad dilynol i ddelio â'r diffygion mewn addysg
- rhaid i'r tîm arolygu wneud ei benderfyniad am weithgarwch dilynol ar y cyd, a chyfiawnhau ei ganfyddiadau / ymagwedd â thystiolaeth. Dylai'r arweinydd a'r dirprwy arolygwyr arweiniol gysylltu â'u golygyddion priodol yn y lle cyntaf os ydynt o'r farn y gallai fod angen gweithgarwch dilynol. Bydd yr arweinwyr dilynol yn y ddwy arolygiaeth hefyd yn cynghori cyn rhoi lleoliadau mewn gweithgarwch dilynol ar y cyd.
- Os yw arolygwyr yn nodi bod angen gweithgarwch dilynol ar y lleoliad, rhaid iddynt roi gwybod i'r lleoliad yn ystod y cyfarfod adborth. Dylai arolygwyr roi gwybod i'r lleoliad bod angen gweithgarwch dilynol ar y cyd a beth fyddai fformat tebygol yr ymweliad hwn. Er enghraifft, os yw'r lleoliad yn cael ei roi yn y categori gweithgarwch dilynol yn bennaf am faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio a lle mae Hysbysiadau Gweithredu Blaenoriaethol yn cael eu cyflwyno, byddai arolygwyr yn rhoi gwybod i'r lleoliad ei bod yn debygol mai AGC yn unig fydd yn ymweld i ystyried cynnydd. Pan gaiff gwendidau sylweddol eu nodi yn y ddarpariaeth ar gyfer addysg, mae'n debygol mai Estyn yn unig fydd yn olrhain cynnydd. Os yw arolygwyr yn nodi gwendidau ar draws gofal ac addysg, mae'n debygol y bydd Estyn ac AGC yn ymweld i fesur cynnydd.
- Dylai arolygwyr roi gwybod i'r lleoliad y bydd fformat yr ymweliad dilynol yn cael ei gadarnhau ar ôl y broses sicrhau ansawdd.
- Mae'r penderfyniad yn gyfrinachol i'r lleoliad hyd nes cyhoeddi'r adroddiad.